# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL 2022:**
Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher y 13eg o Ebrill am 7 y.h. Estynnwyd croeso gan yr Is gadeirydd i'r aelodau.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Iwan Harding, Bethan Holding (yn y Gadair), Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard.
***Ymddiheuriadau:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Claudia O'Donnell
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 9fed o Fawrth, 2022 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.
Cynnig ac eilio: HLJ / IO.

**4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:** .
***1. Cyflwr fflat yn Maes Padarn:***
Adroddwyd i'r gwaith gael ei gwblhau.
***2. Cae Pel-droed UEFA:***
Daeth popeth i drefn ac ad-dalwyd yr arian a fenthyciwyd gan Y Ganolfan i hyrwyddo llif arian cyn diwedd Mawrth.
***3. Cysgodfan Bws:***
Y lloches wedi cyrraedd yr ymgymerwr. Fe'i gosodir ar ôl gwyliau ysgol y Pasg.
***4. Llwybrau:***
Roedd y Clerc wedi cysylltu a dau adeiladwr waliau cerrig mewn perthynas a chael pris i drwsio Pont y Meibion yn y Nant. Roedd hefyd yn disgwyl dyddiad i gyfarfod Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd (CG) gan obeithio am gymorth ariannol ac roedd hefyd yn bwriadu dangos fel yr oedd cyflwr y llwybr coed yn Nant Ucha' wedi dirywio yn sylweddol dros y gaeaf.
***5. National Grid - Gwaith Ffordd:***
Y gwaith yn mynd yn ei flaen, a'r goleuadau wedi eu symud dros benwythnos y Pasg i hwyluso trafnidiaeth.

**5 MATERION ERAILL:**
***1. Parcio Dwbl:***
Yn ôl BH roedd parcio dwbl a parcio bler yn broblem go sylweddol mewn rhannau o Lanberis. Soniwyd am loriau yn methu a chyrraedd pen eu taith ac am faniau wedi eu parcio am ddyddiau yn yr un lle. Beirniadwyd agwedd hunanol rhai o'r gyrrwyr a oedd yn anystyriol o anghenion defnyddwyr eraill y ffyrdd a phobl leol. Yn ychwanegol esboniwyd fel yr oedd llinellau melyn dwbl wedi gwisgo a diflannu mewn mannau, yn arbennig ar gorneli, a penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried ail baentio ar fyrder.
***2. Mynydd Gwefru:***
Yn sgil bwriad y cwmni i wneud cais cynllunio i chwalu'r adeilad a gwneud maes parcio a llecyn digwyddiadau mae bwriad ar ôl yr Etholiad i gynnal cyfarfod (a drefnir gan Reolwr Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau dros Dro CG heb bresenoldeb y cwmni) rhwng y cynghorau lleol i weld sut y gellir gweinyddu'r llecyn cymunedol os caiff ganiatad cynllunio. Dywedodd y Clerc iddo bwyso mewn cyfarfod diweddar mai tri cyngor yn unig ddylai fod yn rhan o'r trafod - Llanddeiniolen, Llanrug a Llanberis.
***3. Siglen Cae Chwarae:***
Wedi derbyn adroddiad blynyddol archwiliwr y cae chwarae i gwmni Zurich cafwyd ar ddeall fod angen newid coesau'r siglen fawr ar un ochr. Cafwyd gorchymyn i wneud hynny cyn canol Mai, neu os nad oedd hynny'n bosib dylid gwneud yn siwr nad oedd neb yn medru ei defnyddio. Dywedodd y Clerc ei fod yn holi am brisiau i roi darnau newydd yn lle'r rhai diffygiol, ac am siglen newydd.

***4. Arwyddion Ffordd - Angladdau***
Defnyddiwyd yr arwyddion i dawelu trafnidiaeth yn ddiweddar. Rhag gorfod eu cario bellter dywedodd IO fod safleoedd cyfleus wedi ei ddarganfod i'w cadw. Mae un cwmni o ymgymerwyr (EWP) wedi cytuno i'w gosod allan. Gobeithir dod i'r un trefniant gyda ymgymerwyr eraill.

**6 GOHEBIAETH:**
***1. Llochesi / Cysgodfannau Bws:***
Mae CG wei ymgynghori ynglyn a newid ac ychwanegu at nifer y cysgodfannau sy'n y plwyf mewn perthynas a'r gwasanaeth bws 'Sherpa' sydd wedi ei ddiwygio eleni, gyda gwasanaeth llawer ehangach a chyson a cysylltiadau gwell a Chaernarfon, Bangor a Betws-y-coed.
Er mai dim ond dau o gysgodfannau y Cyngor hwn sydd yn rhan o'r cynllun y bwriad fyddai eu tynnu i lawr a chodi rhai a wnaed o bren yn eu lle o flaen Maes Padarn a ger yr Hen Bost yn Nantperis. Gan fod y cysgodfannau yma mewn cyflwr da ac o ddeunydd parhaol penderfynwyd cadw atynt. Fel rhan o'r cynllun fe adnewyddir y llochesi yn y Gyfnewidfa yn Nôl y Goeden ac mae bwriad i godi dwy newydd yn y Nant, un o flaen Ty'n Llan ar llall ar faes parcio y Parc Cenedlaethol gan ddisgwyl i'r Cyngor hwn ofalu amdanynt. Penderfynwyd nad oedd hynny yn dderbyniol o gwbl. Dywedwyd fod lle yn brin o flaen Ty'n Llan ac o ran y maes parcio holwyd beth a ddigwyddodd i ddau gynllun blaenorol i godi cysgodfan unigryw yno. Gofynnwyd i'r Clerc gyfleu i CG nad oedd y Cyngor hwn yn gweld fawr synnwyr mewn chwalu cysgodfannau mewn cyflwr da, gan nodi ei bod yn anheg disgwyl i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt yn enwedig gan eu bod yn adeiladau pren.
***2. Nifer o Gylchlythyrau:***
a) Ymgynghoriad cyhoeddus - Holiadur Anghenion Tir - Adran Tai ac Eiddo, CG ynglyn a tai - dweudeichdweud@gwynedd.llyw.cymru
b) Chwilfa Fawr y Dolydd - Grwp Dolydd Sir Gaerfyrddin - creu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn glaswelltiroedd a chofnodi planhigion - bigmeadowsearch@gmail.com - Anfon ymlaen i Gyfeillion Cae'r Ddôl).
c) Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru - llythyr Llunio a Chyhoeddi Cyfrifon Ariannol Statudol ar gyfer 2021-22 - wrth i'r pandemig glirio nodyn yn atgoffa i gadw at amserlen swyddfa Archwilio Cymru.

**7 CYNLLUNIO**
• **C22/0223/15/LL -** Y Berllan, Ffordd Capel Coch, Llanberis - *cais ar gyfer codi byngalo dormer, lledu'r fynedfa bresennol ynghyd a darparu llecynnau parcio (ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd dan gyfeirnod C21/1140/15/LL) -*
Dim Sylw
• **C22/0239/15/LL** - Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru, Oriel Eryri, Llanberis - *dymchwel rhan helaeth o Ganolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru (ar wahân i'r is-orsaf drydan presennol), newid defnydd y safle i greu maes parcio, ail osod goleuadau, gwefr bwyntiau ar gyfer cerbydau, ynghyd a thirlunio cysylltiedig -*
Y cynllun gwreiddiol oedd addasu'r adeilad a'i foderneiddio trwy dynnu peth o'r cefn i lawr ac yna gwella'r gweddill. Gan fod y perchenog yn mynnu nad ydi hynny yn ddewis bellach, mae'n amlwg mai ei dynnu i lawr yw'r unig ateb. Bu ymgynghori hir cyn hyn gyda'r gymuned, a'r Cyngor hwn yn rhan o hynny, ac er i sawl un fynegi y byddent yn hoffi cadw'r adeilad, roedd hi'n amlwg ers tro na fyddai hynny'n digwydd.
Felly does gan y Cyngor hwn ddim gwrthwynebiad i dynnu'r adeilad i lawr gan nad ydi'r cwmni yn cynnig dewis arall ond mae cryn anfodlonrwydd ymhlith aelodau mai maes parcio sydd i'w greu wedyn ynghyd a a safle bychan i ddigwyddiadau. Y fantais yw y gallai y safle hwn yn y dyfodol, pe gwireddid rhai cynlluniau y mae sibrydion amdanynt, fod yn addas ar gyfer hynny. Mynegwyd bod maes parcio arall yn fygythiad i incwm CG o feysydd parcio ac i'r Ganolfan sydd a'r incwm o'i faes parcio mor allweddol i lwyddiant y lle hwnnw.

• **C22/0275/15/LL -** Mount Pleasant, Stryd Fawr, Llanberis - dymchwel estyniad cefn is-safonol ynghyd â chodi estyniad newydd a gwaith peirianyddol sy'n cynnwys lleihau'r brigiad craig yng nghefn yr eiddo er mwyn cynyddu'r arwynebedd tir y gellir ei ddefnyddio.
Dim sylw.

**8 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Mawrth, 2022 / [a 31 Mawrth 2022]**
**Cyfrif Cyfredol**: £8,213.35 [£11,399.15 **Cyfrif Cadw**: £66.52 [£66.52]

**2) Cadarnhawyd taliadau gwerth:**
**CYFANSWM … … £586.84**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/02/2022 a 28/03/2022:**
**CYFANSWM … … £1250.00**

**4) Archwiliad Blynyddol:**
Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd gynnal yr Archwiliad Mewnol eto eleni.

Cynnig ac eilio: KMJ / IH

**9 Y FYNWENT:**
1. Cafwyd adroddiad fod geifr wedi dod i'r Fynwent. Gofynwyd i'r Clerc edrych i mewn i'r mater.
2) Trafodwyd mater o dorri gwair Mynwent yr Eglwys ar ôl deall fod dymuniad i dorri'n hwyrach, tua canol Gorffennaf. Os hynny yna mae'n debyg y bydd un torriad yn ddigon. Addawodd y Clerc gysylltu a'r Warden yn Nantperis.
c) Atgoffwyd y Clerc fod angen arwydd i ofyn i bobl fynd a sbwriel a hen flodau i'w gwaredu gartref os yw'r biniau'r Fynwent yn llawn.

**10 DRODDIADAU ALLANOL:**
**Y Ganolfan:**
Dadorchuddiwyd y Tapestri i gofio wyth gan mlynedd adeiladu Castell Dolbadarn (2020) a rhoddwyd canmoliaeth i blant Ysgol Dolbadarn, i'r merched lleol ynghyd a Kevin Burgess a fu ynghlwm wrth y cynllunio a'r brodio a'r holl baratoi. Mae'n addurn deniadol iawn i Neuadd Gefn Y Ganolfan ac yn atgof o bwysigrwydd y castell gynt yn hanes Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at waith Ken Jones, Ysgrifennydd y Ganolfan yn ysbrydoli'r gwaith ac yn codi nawdd oddi wrth First Hydro, Rheilffordd yr Wyddfa, Gwesty Victoria, CADW a'r Cyngor hwn.

**11 CYFARFOD OLAF Y CYNGOR PRESENNOL:**
Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor presennol gydag Etholiad ar Fai y 5ed. Atgoffwyd yr aelodau y dylai pob un oedd yn bwriadu gwneud cais i fod yn aelod o'r Cyngor nesaf lenwi ei ffurflen a'i hanfon drwy'r Post, yn electronig neu trwy law i swyddfa CG cyn 4yp, ar y 5ed o Ebrill. Roedd cyflenwad o ffurflenni gan y Clerc ac addawodd fynd a nhw i Gaernarfon wedi iddynt gael eu cwblhau.
Diolchodd BH, yr is gadeirydd i bawb am eu cyfraniad i'r Cyngor gan ddymuno'n dda i bawb sy'n sefyll eto. Diolchodd hefyd i'r Clerc am ei waith a'i arweiniad dros gyfnod y Cyngor hwn. Ategwyd hynny gan eraill.

**12 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf. Nos Fercher yr 11eg o Fai, 2022, 2022 am 7.00yh yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 11eg o Fai, 2022



.